# Y Pwyllgor Deisebau

## "PET(3)03-08 (p9): 21 Chwefror 2008"

## "Cyfeirnod y ddeiseb P-03-074: Nant Cylla (AR GAU)"

### Diben

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

### Cefndir

Caeodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar 17 Ionawr 2008.

Yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth, daeth y Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i Asiantaeth yr Amgylchedd gynhyrchu canllawiau mwy eglur i'r cyhoedd ar y broses drwyddedu ar gyfer rhyddhau carthion. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i fynegi'r pryder hwn.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb ac wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd gynhyrchu nodyn cyfarwyddyd. Mae copi o'r llythyr hwn i'w weld fel Atodiad A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Chwefror 2008